

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 5 Ebrill 2018

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: CYLLID / YSTADAU**

**Teitl:** Rheoli parcio ceir – canllawiau ar gyfer GIG Cymru

**Dyddiad dod i ben / Adolygu – O dan adolygiad parhaol**

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd  
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG

**Camau i'w cymryd gan:**

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Anfonwyd gan:** Richard Barr, Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau [Richard.barr@llyw.cymru](mailto:Richard.barr@llyw.cymru) neu 0300 0253987

**Enw(au) Cyswllt HSSG yn Llywodraeth Cymru:**

Richard Barr, Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

[Richard.barr@llyw.cymru](mailto:Richard.barr@llyw.cymru)

Rhif ffôn: 0300 0253987

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

Annwyl Gydweithiwr,

## **Crynodeb**

Diben y cylchlythyr hwn yw hysbysu ac egluro i'r holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG y trefniadau parcio ceir ar safleoedd ysbytai'r GIG. Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn amlinellu'r weithdrefn o fewn GIG Cymru sy'n ymwneud â thaliadau parcio a rheoli parcio ceir ar draws y GIG yng Nghymru.

O ganlyniad i'r canllawiau newydd hyn, mae'r cylchlythyr blaenorol '*WHC (2008) 011 Diwygio Parcio Ceir yn Ysbytai'r GIG*' wedi'i ddi-ddymu.

## **Cefndir**

O 1 Ebrill 2008, bu modd i gleifion, staff ac ymwelwyr barcio am ddim ar holl safleoedd ysbytai'r GIG. Yr unig eithriadau i hyn oedd pan fo gan y byrddau iechyd gontractau allanol ar waith. Esboniodd y canllawiau na ddylid adolygu nac ymestyn contractau allanol. Mae gan dri ysbyty gontractau allanol ar waith a bydd pob un ohonynt yn dod i ben yn 2018. Pan fydd y contractau yn dod i ben, bydd modd i gleifion, staff ac ymwelwyr parcio yn rhad ac am ddim ar draws safleoedd GIG Cymru.

Bydd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli parcio ceir ar draws eu hystadau. Dylai'r dull o fynd ati gael ei osod yng nghynlluniau teithio cynaliadwy eich prif ysbytai. Mae'r gofyniad hwn wedi'i amlinellu yn '*WHC (2008) 058 Cynlluniau Teithio Cynaliadwy GIG Cymru (Safleoedd Penodol), i gynnwys Cynlluniau Parcio Ceir*'. Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn parhau i fod ar gael.

Ymwelodd Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru â holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn 2017 i drafod a rhannu gwybodaeth am y ffordd y mae sefydliadau'r GIG yn delio â materion rheoli parcio ceir ar hyn o bryd. Ni chafodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei chynnwys yn y rhaglen o ymweliadau gan nad yw ei hystad yn cynnwys ysbytai a chyfleusterau tebyg. Yn ystod y cyfarfodydd â staff allweddol y GIG, nodwyd materion cyffredin ar draws y GIG ynghyd ag arferion gorau i'w rhannu.

Rydym yn cydnabod pan fydd modd parcio yn rhad ac am ddim ar draws holl safleoedd ysbytai Cymru ar ôl mis Medi 2018, y gallai hyn gynyddu llif y traffig ar y safleoedd. Gallai hefyd achosi problemau mynediad a fyddai'n arwain at bwysau ychwanegol ar rai safleoedd sydd eisoes yn dioddef o broblemau parcio sylweddol. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys cyngor ac arferion gorau i'w rhoi ar waith wrth fynd ati i reoli parcio ceir ar safleoedd ysbytai.

## **Polisi**

Dylai'r themâu allweddol ar gyfer rheoli parcio ceir gynnwys-

- Gwarchod lleoedd parcio anabl, cynnal llif traffig diogel o amgylch safleoedd a sicrhau bod llwybrau mynediad clir a diogel ar gyfer cerbydau argyfwng yn cael eu cynnal;

- Annog pobl i ddefnyddio dulliau amgen o deithio, gan felly leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Annog y gwaith o ddatblygu canolfannau teithio cynaliadwy;
- Annog pobl i barcio ar safleoedd ysbytai ar gyfer materion yn gysylltiedig â'r ysbyty yn unig.

## **Cyngor**

Bydd pob safle parcio y GIG am ddim i gleifion, staff ac ymwelwyr yn ddiweddarach eleni, a bydd angen canolbwyntio ar reoli'r parcio ar y safle.

Disgwylir y byddai unrhyw fesurau gorfodi yn gymesur, ac ar waith yn bennaf i fynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon a materion mynediad. Ar rai safleoedd ysbytai, bydd hefyd angen rheoli'r defnydd posib o leoedd parcio gan deithwyr neu bobl eraill heb reswm i ymweld â'r ysbyty.

Mae nifer o ffyrdd y gallai sefydliadau'r GIG edrych ar ffyrdd o leihau nifer y ceir sy'n parcio yn y meysydd parcio, yn amrywio o adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig i gynlluniau parcio a theithio. Ni fwriedir i'r cyngor hwn fod yn orchmynnol. Er enghraifft, mae ysbytai aciwt mawr yn debygol o ddiodeff pwysau parcio ceir sylweddol uwch na safleoedd ysbytai eraill. Gall materion parcio gwahanol effeithio ar ysbytai tebyg. Mae'r rhain yn gallu bod yn berthnasol i'w lleoliad, maint daearyddol yr ystad, nifer y lleoedd parcio ac ati. Byddai'n amhosibl defnyddio yr un dull ar gyfer yr holl amgylchiadau.

Gan gydnabod y pwysau sylweddol sy'n ymwneud â pharcio ceir ar nifer o safleoedd ysbytai, dylid sicrhau bod system rheoli parcio cwbl glir ar waith. Dylai hyn gynnwys gosod arwyddion clir a hefyd sicrhau bod cleifion, staff ac ymwelwyr yn deall y system, ynghyd â'r gymuned yn ehangach i'r graddau sy'n bosibl.

Er enghraifft, dylid trin parcio anghyfreithiol a allai achosi problemau mynediad i gerbydau brys yn wahanol i gleifion sydd ychydig funudau yn hwyr yn symud eu ceir ar ôl apwyntiad.

## **Arferion da o ran trefniadau rheoli**

O ganlyniad i'r ymweliadau, nodwyd nifer o arferion da o ran arferion rheoli gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y dylai sefydliadau'r gwasanaeth iechyd eu hystyried. Nodir y rhain isod:-

- Dylid ymgynghori ynghylch cynlluniau rheoli â staff, grwpiau o'r cyhoedd/ymwelwyr a'r undebau er mwyn penderfynu ar y telerau gan gynnwys y cyfyngiadau amser ac ati;
- Dylid sicrhau bod digon o arwyddion wedi'u codi ar gyfer y cynlluniau rheoli wrth gyrraedd y safle ac mewn lleoliadau eraill;

- Ni ddylai'r ffioedd gorfodi ar gyfer parcio fod yn uwch na'r ffioedd a godir gan yr awdurdodau lleol yn ardal y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth;
- Dylai'r camau apelio fod wedi'u hysbysebu'n dda a bod yn rhwydd i'w dilyn;
- Dylai'r camau apelio fod yn ystyriol o'r apelydd, lle bo cyfiawnhad;
- Rhaid i'r cynlluniau rheoli gael eu hysgogi gan ddiogelwch ac nid o ran gwneud GIG Cymru neu elw i unrhyw gwmni rheoli a benodwyd gan sefydliad y GIG;
- Dylai'r polisi parcio fod yn seiliedig ar "*Gweithdrefnau Gorfodaeth Parcio Sifil, Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru*";

[https://www.wppp.org.uk/pdf/WPPP\\_CPE\\_Procedures%20CYMRAEG.pdf](https://www.wppp.org.uk/pdf/WPPP_CPE_Procedures%20CYMRAEG.pdf)

Dylai fod ardaloedd ar gyfer "deiliaid pàs ysbyty yn unig" ar safleoedd ysbytai aciwt. Byddai'r rhain ar gael i staff sy'n bodloni meini prawf penodol, megis bydwagedd a staff meddygol ar alwad.